## ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

**Amcanion polisi**

1. Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol rhwng mis Hydref 2023 a mis Ionawr 2024 a chyhoeddwyd dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Ebrill 2024. Mae'r gwaith hwn ac amrywiaeth eang o weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi arwain at ddatblygu'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) (y Bil), sydd â'r nod o sicrhau bod digartrefedd yng Nghymru yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd.

2. Mae nodau'r Bil yn adeiladu ar y sylfeini a nodwyd yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) (2014) (Deddf 2014), a fu'n allweddol i sefydlu system ddigartrefedd a oedd yn seiliedig ar atal, lleihau'r pwyslais ar y cysyniad o "brofi" cyn y gellir cael gwasanaethau, ehangu opsiynau llety a meithrin cydweithrediad rhwng gwasanaethau cyhoeddus.

3. Nod y Bil yw cyflwyno system sy'n seiliedig ar yr amcanion polisi canlynol:

- Dylai digartrefedd fod yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd.
- Dylai gwasanaethau digartrefedd fod yn ystyriol o drawma a chanolbwyntio ar yr unigolyn.
- Dylai fod modd i'r rhai sy'n ddigartref gael eu cartrefu yn yr hirdymor yn gyflym, gan eu gwneud yn fwy hunangynhaliol a'u helpu i gadw eu cartref (Ailgartrefu Cyflym).
- Gwasanaeth cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am atal digartrefedd.

4. Mae'r Bil yn cynnwys amrywiaeth o ddarpariaethau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc; bydd ffocws ar atal, a phwyslais cryfach ar nodi ac ymyrryd yn gynnar, yn sicrhau nad yw pobl ifanc yn mynd i ddigartref yn y lle cyntaf. I'r rhai na allant osgoi digartrefedd, mae'r Bil yn anelu at leihau'r cyfnod cyn i bobl ddigartref gael eu hailgartrefu mewn llety sefydlog. Bydd hyn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn treulio llai o amser mewn llety dros dro.

5. Bydd y Bil hefyd yn cryfhau'r cyfrifoldebau rhianta corfforaethol sy'n bodoli ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod pobl ifanc sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd yn cael cymorth integredig, a bydd yn rhoi diwedd ar y duedd i ddefnyddio'r system ddigartref fel llwybr allan o ofal. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i'r system ddigartrefedd er mwyn sicrhau bod pobl ifanc sy'n pontio o ofal awdurdod lleol yn cael blaenoriaeth uchel wrth ddyrannu tai. Bydd ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol a'r prawf bwriadoldeb er mwyn sicrhau bod gwasanaethau digartrefedd ar gael yn gyffredinol a chreu system sy'n seiliedig ar gynhwysiant, yn hytrach nag allgáu, yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc.

## Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

*Pa waith ymchwil a data ar blant a phobl ifanc sydd eisoes ar gael i lywio eich polisi penodol?*

6. Yn ogystal â'r gwaith paratoi penodol a wnaed i helpu i ddatblygu'r Bil (a amlinellir yn adran 4), rydym wedi dibynnu ar ystod o lenyddiaeth i asesu ac ystyried effeithiau'r Bil i blant, gan gynnwys ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru at y diben hwn.

7. Wrth ystyried profiadau plant, mae'n bwysig nodi pa mor gymhleth yw diffinio'r grŵp hwn a'r lefelau amrywiol o lenyddiaeth sydd ar gael ar gyfer plant o oedran gwahanol. O ran digartrefedd, mae FEANTSA wedi datblygu fframwaith Ewropeaidd i ddiffinio digartrefedd ymhlith pobl ifanc sy'n cwmpasu profiadau pobl ifanc rhwng 13-26 oed. [1] Mae hyn yn cynnwys y rhai heb dŷ, heb do uwch eu pennau neu sy'n byw'n anniogel. Fodd bynnag, defnyddir y diffiniad o unigolion 1-18 oed hefyd mewn rhai darnau o ymchwil allweddol i ddiffinio plant yng nghyd-destun digartrefedd.[2]

8. Er mwyn sicrhau bod y Bil yn ymateb i ddiffiniad eang a phrofiadau gwahanol plant, rydym wedi ceisio deall ac ystyried yr effaith i blant dibynnol sy'n cael profiad o ddigartrefedd o fewn teuluoedd ac i blant sy'n ddigartref fel ceiswyr unigol neu arweiniol (y cyfeirir at hyn yn aml fel digartrefedd ymhlith pobl ifanc). Ar adeg ysgrifennu, mae 2,612[3] o blant dibynnol o dan 16 oed yn byw mewn llety dros dro yng Nghymru ac yn y flwyddyn ddiwethaf y mae gennym ddata ar ei chyfer, cysylltodd 405 o bobl ifanc 16-17 oed ag awdurdodau lleol i gael cymorth tai fel ceiswyr arweiniol. [4] [5]

9. Mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd pobl ifanc sy'n ddigartref yn aml yn cael profiad o ddigartrefedd ochr yn ochr â nifer o faterion cymhleth eraill, gan gynnwys y profiad o gamdriniaeth ac esgeulustod, problemau o ran addysg a chamddefnyddio sylweddau. [6]Mae digartrefedd ymhlith plant yn aml yn deillio o drawma, gan gynnwys gwrthdaro yn y cartref, ansicrwydd llety, camddefnyddio sylweddau, marwolaethau yn y teulu, pwysau ariannol a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Gall y ffactorau hyn i gyd ddylanwadu ar amgylchedd cythryblus yn y cartref a chynyddu'r risg o ddigartrefedd i deuluoedd, gan arwain at effeithiau pellach ar y plant o ran ansicrwydd llety yn y dyfodol a thrawma yn ystod plentyndod cynnar.[7] Po gynharaf y profiad o ddigartrefedd, y mwyaf tebygol y bydd unigolyn yn cael profiad o ddigartrefedd mynych.[8]

---

[1] Framework-for-defining-youth-homelessness_final_pdf3614092469143708469.pdf

[2] Embleton, L., Lee, H., Gunn, J., Ayuku, D. a Braitstein, P. 2016. Causes of child and youth homelessness in developed and developing countries: A systematic review and meta-analysis.

[3] Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Chwefror 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU

[4] Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Awst 2024 | LLYW.CYMRU

[5] Aelwydydd y rhoddwyd cymorth iddynt yn ôl canlyniad, oedran a rhywedd (llyw.cymru)

[6] Llamau, Study of the Experiences of Young Homeless People, 2015.

[7] Embleton, L., Lee, H., Gunn, J., Ayuku, D. a Braitstein, P. 2016. Causes of child and youth homelessness in developed and developing countries: A systematic review and meta-analysis. JAMA pediatrics, y cyfeiriwyd atynt gan N.Rees yn y gwaith ar brofiad plant o ddigartrefedd sy'n mynd rhagddo.

[8] Adroddiad 2014 Crisis, '*Nations apart? Experiences of single homelessness people across Great Britain*'

10. Gall y profiad o ddigartrefedd ymhlith plant arwain at fwy o salwch meddwl, teimladau cymhleth ynglŷn â'r cartref a datgysylltiad oddi wrth y teulu ehangach. O ran plant sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd, mae materion a oedd wedi rhagflaenu neu wedi prysuro eu digartrefedd, a all gynnwys caethiwed rhieni, gwrthdaro a chwalu teulu a thrais teuluol, yn parhau i effeithio arnynt.[9]

11. Ym mis Rhagfyr 2022, mewn partneriaeth â Plant yng Nghymru, gwnaethom gais am dystiolaeth ynglŷn â'r profiad o ddigartrefedd ymhlith plant dibynnol o dan 16 oed. Cadarnhaodd yr ymarfer hwn fod diffyg tystiolaeth ynglŷn â'r grŵp penodol hwn ond tynnwyd sylw at rywfaint o ymchwil ddefnyddiol yng Nghymru sy'n nodi'r holl heriau y mae pobl ifanc yng Nghymru yn eu hwynebu wrth iddynt geisio cael tai:

    - diffyg hyder wrth gysylltu â gwasanaethau tai awdurdodau lleol;
    - gorfod ailadrodd profiadau i weithwyr proffesiynol amrywiol yn y sector a theimlo eu bod yn cael eu beirniadu a'u stigmateiddio ac nad yw'r system yn eu cefnogi;
    - prinder adnoddau o ran staff a chyllid;
    - diffyg cymorth gan gynnwys cyfeiriadau gan rannau eraill o'r sector cyhoeddus: gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd meddwl/CAMHS, addysg a gwasanaethau ieuenctid;
    - cyfathrebu gwael rhwng y gwahanol rannau o'r gwasanaeth cyhoeddus ac o ganlyniad, â phlant a phobl ifanc;
    - y pwysau ar y llety dros dro addas sydd ar gael a'r defnydd o lochesi nos;
    - gwrthdaro rhwng gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus dros gyfrifoldebau;
    - anfforddiadwyedd tai parhaol;
    - gwybodaeth sy'n anhygyrch ac yn anodd ei deall;
    - mae pobl ifanc yn aml yn teimlo nad yw eu pryderon na'u hanghenion yn cael eu cymryd o ddifrif ac y gellid gwneud rhagor i atal digartrefedd, p'un a oedd y plant a'r bobl ifanc yn rhan o grwpiau teuluol ai peidio. [10] [11] [12]

12. Mae'r rhwystrau hyn yn amlwg iawn i bobl ifanc LHDTC+ sy'n cael eu cynrychioli'n anghymesur ymhlith carfanau digartrefedd. Gwelir hefyd groestoriad heriol rhwng oedran a nodweddion gwarchodedig eraill, lle mae plant sydd ag un nodwedd warchodedig neu fwy yn wynebu rhwystrau gwaeth. Mae'r dystiolaeth yn cyfeirio at heriau i blant rhieni nad o ddigartrefedd hawl i gyllid cyhoeddus, yn enwedig mewn perthynas â chymhlethdod deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau sy'n llywodraethu eu hawliau ar lefel y DU a lefel Cymru.

[9]Kirkman, M., Keys, D., Bodzak, D., a Turner, A. (2010). "Are we moving again this week?" Children's experiences of homelessness in Victoria, Australia. *Social Science & Medicine,* y cyfeiriodd N.Rees ato mewn gwaith ar brofiad plant o ddigartrefedd sy'n n mynd rhagddo.
[10] Arbenigwyr drwy Brofiad (2023) Cymorth Cymru.
[11] End Youth Homelessness Cymru, *Don't Let Me Fall Through the Cracks* (2020)
[12] Iechyd Cyhoeddus Cymru *Atal Digartrefedd mewn unigolion sydd â Phrofiad o Ofal* (2020)

Ceir tystiolaeth ychwanegol sy'n codi pryderon ynglŷn â'r croestoriad rhwng oedran a'r rhai sy'n niwrowahanol.[13] [14] [15] [16]

13. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn nodi y gallai camau i atal digartrefedd ymhlith plant a phobl ifanc gael eu cryfhau, eu cefnogi, eu gorfodi, a'u hamddiffyn drwy ddeddfwriaeth a pholisi cymdeithasol. Mae'n awgrymu bod yr ymateb presennol i ddigartrefedd sy'n rhoi ffocws ar argyfyngau yn methu â chefnogi pobl ifanc, yn enwedig lle mae cyfleoedd i ymyrryd yn gynt yn cael eu colli.[17]

14. Mae digartrefedd ymhlith plant yn cael effaith ar eu perthynas ag addysg a'u cyrhaeddiad sy'n achos pryder. Mae ymchwil yng Nghymru yn awgrymu bod mynd yn ddigartref neu'r risg o ddigartrefedd yn gysylltiedig â chynnydd o 7% yng nghyfanswm y sesiynau lle mae plentyn yn absennol o'r ysgol. [18] Yn ôl ymchwil gan Shelter England, nododd 88% o'r athrawon a gymerodd ran mewn arolwg, a oedd wedi cael profiad o weithio gyda phlant a oedd yn ddigartref neu'n byw mewn tai mewn cyflwr gwael, fod plant yn colli'r ysgol a nododd 87% fod plant yn dod i'r ysgol yn newynog oherwydd cyfyngiadau cyfleusterau paratoi bwyd mewn llety dros dro. Nododd 94% fod blinder yn broblem i blant digartref a nododd 89% fod plant yn cyrraedd yr ysgol mewn dillad brwnt neu heb ei olchi.[19]

**Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc rydych wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant na phobl ifanc, esboniwch pam.[20]**

15. Ym mis Rhagfyr 2022, mewn partneriaeth â Plant yng Nghymru, gwnaethom gais am dystiolaeth ynglŷn â'r profiad o ddigartrefedd ymhlith plant dibynnol o dan 16 oed. Roedd canlyniadau'r ymarfer hwn a'r digwyddiad i randdeiliaid a gynhaliwyd i gefnogi'r gwaith ymhellach wedi dangos diffyg ymchwil a gwaith cyfranogol ynglŷn â digartrefedd ymhlith plant.

16. Er na fu modd inni ymdrin â'r prinder ymchwil yn y maes hwn, rydym wedi cymryd camau i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ac i sicrhau bod ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant wedi llywio'r Bil.

17. Rydym yn ddiolchgar i End Youth Homelessness Cymru a gynhaliodd nifer o grwpiau ffocws i sicrhau bod pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, gan gynnwys pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, wedi cael eu cynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad y Papur Gwyn. Fel rhan o'i waith ehangach i ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd, cynhaliodd Cymorth Cymru arolwg a chyfweliadau un ar un phobl ifanc hefyd. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r bobl

[13] End Youth Homelessness Cymru's Out on the Streets LGBTQ+ Youth Homelessness in Wales (2020)

[14] AKT 'LGBT Youth Homelessness: *A UK National Scoping of Cause, Prevalence, Response and Outcome (2015)'.*

[15] '*Profiadau pobl â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru o ddigartrefedd*' (2023) Tai Pawb

[16] *'Impossible to Navigate' (2024)* Youth Homelessness Cymru

[17] Atal Digartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc | Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

[18] Absenoldeb o'r ysgol ymhlith plant o deulu digartref [HTML] | LLYW.CYMRU

[19] Papur Briffio: The impact of homelessness and bad housing on children's education - Shelter England

[20] Mae Erthygl 12 o CCUHP yn nodi bod gan blant hawl i fynegi eu barn, yn enwedig pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.

ifanc a gyflwynodd ymatebion uniongyrchol i'r ymgynghoriad, gan ddefnyddio'r ddogfen ymgynghori i blant a phobl ifanc.

18. Rydym hefyd wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys cydgysylltwyr digartrefedd ymhlith pobl ifanc sy'n gweithio ledled Cymru, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, End Youth Homelessness Cymru a swydd Comisiynydd Plant Cymru. Rydym wedi gweithio'n agos gydag adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru i ddatblygu ein polisïau, ac rydym yn ddiolchgar i Benaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan am gymryd rhan yn y gwaith hwn a phenodi gweithiwr cymdeithasol arweiniol i'n cynorthwyo. Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, gwnaethom hefyd gynnal digwyddiad ymgysylltu rhithwir ar rôl gwasanaethau cymdeithasol a thai i atal digartrefedd, a oedd yn cynnwys trafodaeth ar brofiadau plant o ddigartrefedd.

19. Er mwyn archwilio'r cysylltiadau rhwng addysg a digartrefedd yn fanylach, gwnaethom ymgymryd â gwaith uniongyrchol gyda dwy ysgol gynradd (roedd y ddwy ohonynt yn cynnig darpariaeth feithrin), rheolwyr ysgolion bro a thair ysgol uwchradd yng Nghymru. Disgrifiodd staff ysgol y profiadau canlynol o ddigartrefedd yn eu rolau proffesiynol:

- Teuluoedd yn talu arian parod fel rhent i landlord nad oedd yn berson addas a phriodol ac yn byw mewn risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i hynny. Mae ysgolion wedi cael profiad o deuluoedd sy'n wynebu cael eu troi allan o ganlyniad i'r arfer hwn sydd wedyn yn troi at yr ysgol (fel un o'r ychydig iawn o weithwyr proffesiynol yr ymddiriedir ynddynt) am gymorth.
- Teuluoedd sy'n byw mewn llety peryglus ac anniogel aflan a slymlyd. Mae staff ysgol wedi gweld cartrefi teuluoedd lle mae plâu o lygod mawr a phryfed.
- Plant oedran ysgol sy'n byw mewn llety dros dro. I rai mae hyn yn ei olygu gwestai a llety gwely a brecwast ac i eraill mae'n golygu llety Airbnb. Caiff teuluoedd eu symud yn aml, sy'n peri ansefydlogrwydd ac sy'n effeithio ar gyrhaeddiad.
- Profiadau problemus iawn ymhlith teuluoedd heb hawl i gyllid cyhoeddus, teuluoedd yma ar fisâu i fyfyrwyr a theuluoedd sy'n ffoaduriaid neu'n fudwyr, a fydd yn aml yn dod o hyd i lety drwy ffyrdd anffurfiol.
- Mae teuluoedd mewn llety dros dro yn aml yn methu â dilyn eu ffydd ac ni allant gael gafael ar fwyd sy'n ddiwylliannol briodol.
- Mae ysgolion yn atgyfeirio unigolion sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, a nodwyd ganddynt drwy eu gweithdrefnau diogelu ond maent yn rhwystredig oherwydd trothwyon a bylchau mewn gwasanaethau sy'n golygu nad yw'r unigolion a atgyfeirir ganddynt yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arnynt.

20. Un o ganlyniadau ein gwaith cyfranogol yw nodi bwlch mewn tystiolaeth ynglŷn â phlant dibynnol o dan 16 oed sy'n ddigartref. Gwnaethom ymdrechion i ymgysylltu â'r grŵp hwn o blant, mewn partneriaeth a Plant yng Nghymru yn 2023, ond, yn anffodus, ni allai Plant yng Nghymru nodi unrhyw un i gymryd rhan yn y gwaith. Ers hynny, rydym wedi gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru i ddatblygu manyleb ymchwil ar gyfer y grŵp hwn. Ar ddechrau 2025, yn dilyn

ymarfer tendro agored, comisiynwyd Dr Nia Rees i ymgymryd ag ymchwil fethodolegol gyfrannog i ymgysylltu â phlant er mwyn deall profiadau plant yng Nghymru. Mae'r gwaith ymchwil yn cael ei wneud ar adeg ysgrifennu.

21. Ers comisiynu'r darn hwn o waith, mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cyhoeddi adroddiad sbotolau: 'Sut mae materion tai a digartrefedd yn effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru' (Ebrill 2025). Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar brofiadau plant a phobl ifanc o dai a "chartref" ac mae'n tynnu sylw at yr heriau a wynebir gan blant a phobl ifanc yn y maes hwn. Mae'r heriau hyn yn cynnwys teimlo'n anniogel, byw mewn amodau cyfyng, yr effaith negyddol ar addysg ac iechyd meddwl, byw gyda llwydni a lleithder, wynebu stigma tai cymdeithasol a phryderon ariannol.

**Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut rydych yn rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol?** [21]

22. Cyn datblygu'r Bil hwn ac mewn ymateb i waith Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a grybwyllir uchod, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd amrywiaeth o gamau i leihau digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Ers 2019-20, rydym wedi dyrannu £3.7m y flwyddyn i wasanaethau ieuenctid drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid ar gyfer gweithgarwch ymyrryd yn gynt ac atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Mae pob awdurdod lleol wedi penodi Cydgysylltydd Digartrefedd Ieuenctid, wedi'i leoli yn y gwasanaeth ieuenctid, sy'n gweithio gyda'i gydweithwyr ym maes tai, addysg a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn cael eu nodi a'u cefnogi.

23. Gan adeiladu ar ein gwaith polisi ehangach i atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc, mae'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn rhoi cyfle i ymdrin â nifer o feysydd lle mae plant neu lenyddiaeth sy'n seiliedig ar brofiadau plant wedi nodi profiadau anfoddhaol. Ni fydd y Bil yn gallu ymateb i'r holl heriau a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad ond bydd yn cryfhau ymarfer mewn sawl maes allweddol. Bydd hefyd yn cyflwyno diwygiadau lle mae plant wedi codi pryderon. Yn yr adran ganlynol byddwn yn amlinellu themâu allweddol sy'n codi o ymgysylltu â phlant a rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda phlant a'n hymateb i'r rhain.

24. Mae'r ffocws ar fwy o weithgarwch atal a chreu system ddigartrefedd sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cael ei groesawu gan randdeiliaid arbenigol, sydd o'r farn y bydd yn fuddiol i blant a phobl ifanc, cymunedau wedi'u hymyleiddio ac unigolion sy'n agored i niwed. Mae'r bwriad yn y Bil i dargedu gweithgarwch atal at grwpiau penodol, gan gynnwys pobl

---

[21] Gallwch ystyried, er enghraifft, sut y byddai eich polisi yn effeithio ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc mewn ffyrdd gwahanol: blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, oedolion ifanc; plant ag anghenion dysgu ychwanegol; plant anabl; plant sy'n byw mewn tlodi; plant Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol; Sipsiwn, Roma a Theithwyr; mudwyr; ceiswyr lloches; ffoaduriaid; siaradwyr Cymraeg; plant sydd â phrofiad o ofal; plant LHDTC+. Noder nad yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr ac, yn y carfanau hyn, na fydd un profiad homogenaidd.

ifanc sy'n gadael gofal hefyd wedi cael tipyn o gefnogaeth, ynghyd â'r bwriad i wella'r broses o baratoi pobl ifanc i bontio o ofal i fyw'n annibynnol.

25. Mae helpu'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach i adnabod ac atgyfeirio pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn gyson iawn ag egwyddor hirsefydlog nad problem llety yn unig yw digartrefedd. Rhennir yr egwyddor hon ym mhob rhan o'r sector digartrefedd a'r sector tai ac, felly, mae cefnogaeth gyffredinol i ymgorffori hyn mewn deddfwriaeth.

**Angen blaenoriaethol**

26. Mae'r dystiolaeth o ymatebion o ymatebion y bobl ifanc i'r ymgynghoriad yn awgrymu bod plant a phobl ifanc yn cytuno â'r cynnig i ddiddymu angen blaenoriaethol mewn egwyddor. Mae diddymu'r prawf angen blaenoriaethol yn golygu na fydd yn rhaid i bobl sy'n wynebu digartrefedd brofi eu bod yn bodloni gofynion y prawf angen blaenoriaeth cyn cael yr help sydd ei angen arnynt. Fodd bynnag, mae rhai rhanddeiliaid yn pryderu y bydd ddiddymu angen blaenoriaethol yn cael ei ystyried yn golled i'r rhai sy'n rhan o grŵp ag angen blaenoriaethol ar hyn o bryd, yn enwedig pobl ifanc sy'n gadael gofal. Teimlir, yn seiliedig ar ymarfer lleol, fod pobl sy'n gadael gofal yn cael eu cartrefu'n gyflym gan ddarparwyr llety o ganlyniad i angen blaenoriaethol yn unig, ac mae diffyg ffydd y gall y system ymdopi â'r galw cynyddol ar y gwasanaeth.

27. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, noda End Youth Homelessness Cymru "*young people are not on an even footing with their older peers; being penalised by the welfare system because of their age…they are often working minimum wage jobs for less money…and they are routinely discriminated against by landlords when looking to access the PRS because of their age….We cannot therefore advocate for the imposition of equality at this point, when care leaver's life experiences up to the crisis point of making a homelessness application, do not come close to having been on an equal footing to their non-looked after peers".*

28. Wrth ddatblygu'r Bil, rydym wedi ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli plant a phobl sy'n gadael gofal; gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol i archwilio'r ymarfer sy'n gysylltiedig â'r prawf angen blaenoriaethol. Defnyddir y prawf angen blaenoriaethol i benderfynu pwy sydd â hawl i'r brif ddyletswydd digartrefedd (i sicrhau llety sydd ar gael i'w feddiannu) ond nid yw'n chwarae rôl yn y broses o flaenoriaethu neu ddyrannu tai sy'n dilyn ac felly rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut mae dealltwriaeth leol o rôl y prawf wedi llywio safbwyntiau rhanddeiliaid.

29. Mae'r Bil yn diddymu'r prawf angen blaenoriaethol o hyd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau digartrefedd ar gael yn gyffredinol a chreu system sy'n seiliedig ar gynhwysiant, yn hytrach nag allgáu. Credwn y bydd hyn yn cael effeithiau cadarnhaol ar blant a phobl ifanc a fydd yn cadw mynediad at wasanaethau digartrefedd a chyngor, fel sydd ganddynt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn glir mai dim ond ar ôl cyfnod paratoi digonol y gellir ei ddiddymu; gan nodi'r pwysau ar y system ar hyn o bryd a'r cyflenwad cyfyngedig o dai cymdeithasol. Gall Gweinidogion roi terfyn ar y defnydd o'r prawf pan fyddant yn tybio bod hynny'n briodol. Credwn fod hyn yn cynnig cyfnod paratoi defnyddiol cyn ei ddiddymu ond y bydd yn unol â barn hirsefydlog llawer o randdeiliaid allweddol

bod y prawf angen blaenoriaethol yn atal pobl sy'n agored i niwed rhag cael cymorth hollbwysig. Ynghyd â chynigion eraill, a nodir isod, rydym o'r farn y bydd y Bil yn cryfhau'r hawl i blant a phobl ifanc yn sylweddol, yn enwedig pobl sy'n gadael gofal sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd.

**Bwriadoldeb**

30. Ar y cyfan, mae plant a phobl ifanc yn cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r prawf bwriadoldeb a ystyrir yn rhwystr diangen sy'n atal pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ac sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd yng Nghymru rhag cael gafael ar wasanaethau.

31. Mae'r grŵp i unigolion â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael ei redeg gan End Youth Homelessness Cymru yn awgrymu "*[to] reach a stage where the intentionality test is required already represents a wider systemic failure in the prevention-based approach advocated for by the homelessness and housing sector and supported by the Welsh Government. It also of course has a very human cost for the young care experienced person who is threatened with homelessness".*

32. Mae EYHC hefyd yn nodi diffyg hygyrchedd yn y system ddigartrefedd mewn perthynas â niwrowahaniaeth. Mae'n codi pryderon bod y prawf bwriadoldeb yn faes lle y gall y system roi pobl ifanc niwrowahanol o dan anfantais a pheri iddynt syrthio drwy'r rhwyd i ddigartrefedd. Mae'n codi materion tebyg o ran pobl ifanc LHDTC+.

33. Mae'r Bil yn diddymu'r prawf bwriadoldeb. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael effeithiau cadarnhaol ar blant a phobl ifanc gan y bydd yn dileu rhwystr y mae rhai pobl ifanc yn ei wynebu sy'n eu hatal rhag cael gafael ar wasanaethau.

**Cysylltiad lleol**

34. Mae pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal wedi croesawu ein cynnig i'w cynnwys mewn rhestr o grwpiau sy'n esempt rhag atgyfeiriadau cysylltiad lleol. Fodd bynnag, yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Bil yn fanwl, sydd wedi cynnwys ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid, mae wedi dod yn amlwg bod angen prawf cysylltiad lleol i sicrhau bod ein bwriadau polisi yn cael eu cyflawni'n gyffredinol a bod gennym system ddigartrefedd flaengar yng Nghymru. Rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru allu gwneud y defnydd gorau o adnoddau lleol a chenedlaethol i'r rhai sydd â'r angen mwyaf yng Nghymru. Felly, bydd y Bil yn cyflwyno prawf cysylltiad lleol i bennu hawl i ddyletswydd adran 75 (y brif ddyletswydd digartrefedd).

35. Nid yw'r Bil yn cyflwyno unrhyw esemptiadau rhag y prawf cysylltiad lleol, ond bydd gan Weinidogion bŵer i ddiffinio cysylltiad lleol ymhellach mewn rheoliadau, er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch y prawf, sydd wedi'i nodi mewn canllawiau ar hyn o bryd. Nes y byddwn wedi ymgynghori ac ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid, mae'r pŵer hwn yn rhoi cyfle i fynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n gadael gofal mewn perthynas â chysylltiad lleol yn well.

## Mynediad at y system a rôl y gwasanaeth cyhoeddus ehangach

36. Mae rhai pobl ifanc yn disgrifio anawsterau i gael cymorth gan eu cyngor lleol ac yn pwysleisio gwerth gwasanaethau lleol o ran eu helpu i ymdrin â'r system ddigartrefedd. Felly, ceir cefnogaeth gyffredinol i'n cynigion i ehangu cyfrifoldebau am atal digartrefedd i bob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus.

37. Cawsom rywfaint o adborth y dylid cynnwys y sector addysg a'r sector rhentu preifat yn nyletswyddau'r gwasanaeth cyhoeddus. Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth ag undebau addysg ac ysgolion i ystyried eu rôl o dan ddyletswyddau'r gwasanaeth cyhoeddus. Ceir cytundeb cyffredinol rhwng Llywodraeth Cymru a'r undebau â'n nod i roi diwedd ar ddigartrefedd a chytundeb bod staff ysgol mewn sefyllfa dda i nodi anghenion dysgwyr a chwarae rôl i atal digartrefedd.

38. Rydym wedi nodi nifer o feysydd lle y gall addysg chwarae mwy o rôl i atal digartrefedd. Mae pwerau cyfreithiol digonol ar waith i wneud hyn, yn enwedig adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Er mwyn rhoi hyn ar waith yn effeithiol, byddwn hefyd yn gweithio gyda swyddogaethau addysg awdurdodau lleol i ddatblygu llwybrau atgyfeirio lleol, datblygu canllawiau ymarfer a helpu i ddatblygu a chyflwyno adnodd dysgu a datblygu syml ynglŷn â nodi digartrefedd. Bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar y gwaith cynnar sylweddol ar nodi ac atal a arweinir gan Gydgysylltwyr Digartrefedd Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc (a ariennir gan Lywodraeth Cymru) ledled Cymru.

40. Ar y cam hwn, ni fyddwn ychwaith yn cynnwys addysg drydyddol nac addysg uwch yn nyletswyddau'r gwasanaeth cyhoeddus, gan fod angen rhagor o ddatblygu polisi yn y maes hwn. Mae'n bwysig nodi y gellir diwygio'r rhestr o gyrff cyhoeddus penodedig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd i ”ofyn a gweithredu” sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil dros amser, a bod hyn yn rhoi cyfle i ychwanegu cyrff cyhoeddus penodedig yn y dyfodol.

41. O ran y cais ynglŷn â landlordiaid preifat; yn ein barn ni, nid yw'n briodol cymhwyso'r dyletswyddau at y garfan hon. Mae'r dyletswyddau wedi'u hanelu at wasanaethau cyhoeddus, nid unigolion na sefydliadau y tu allan i'r sector cyhoeddus. Mae'r hysbysiad terfynu (Ffurflen RHW1698) a ragnodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer landlordiaid eisoes yn cyfeirio deiliad y contract i geisio cymorth gan asiantaethau perthnasol yn y trydydd sector ac i gysylltu â'r awdurdod tai lleol pe baent yn nodi bod deiliad contract yn wynebu risg o ddigartrefedd. Mae hyfforddiant trwyddedu Rhentu Doeth Cymru, yn ogystal â'r Cod Ymarfer statudol i landlordiaid ac asiantau gosod, yn darparu y dylai'r landlord (ar ôl cyflwyno hysbysiad i derfynu'r contract meddiannaeth), fel arfer gorau, ddarparu manylion asiantaethau perthnasol yn y trydydd sector i ddeiliaid contract nad oes ganddynt lety i symud iddo, neu sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i lety arall. Mae'r Gwasanaeth Cynghori ar Atal Colli Cartrefi hefyd yn rhoi cyngor cyfreithiol a ariennir gan y llywodraeth i rywun o'r adeg y caiff hysbysiad cymryd meddiant neu rywbeth tebyg. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i ddeiliaid contract ar y broses o gymryd meddiant.

42. Bydd y ddyletswydd arfaethedig i “ofyn a gweithredu” yn gwella prosesau ymyrryd yn gynt a mynediad at y system ddigartrefedd. Er na fydd sefydliadau addysg yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd, byddwn yn defnyddio deddfwriaeth

bresennol i helpu'r sector addysg i nodi unigolion sy'n wynebu risg o ddigartrefedd a cheisio cymorth gan eu hawdurdod tai lleol. Wrth wneud hynny, byddwn yn adeiladu ar yr ymarfer presennol, gan gynnwys y system ddiogelu a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, gan ddatblygu dull gweithredu y gellir ei roi ar waith ac sy'n cael ei gefnogi gan randdeiliaid allweddol ym maes addysg. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael effeithiau cadarnhaol ar blant a phobl ifanc gan y bydd yn helpu i nodi digartrefedd ymhlith plant yn gynnar a'i atal.

**Llety dros dro**

43. Yn ôl Cymorth Cymru, mae pobl ifanc yn disgrifio profiadau cymysg iawn o lety dros dro. Mae'r rhai sydd wedi cael eu rhoi mewn llety dros dro â chymorth o natur arbenigol i bobl ifanc yn tueddu i fod yn ganmoliaethus ynglŷn â'u profiadau yno, gyda ffocws penodol ar y cymorth i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol, ac ansawdd y cymorth a'r gweithgareddau a ddarperir. Fodd bynnag, mae pobl ifanc a roddwyd mewn llety dros dro anaddas yn disgrifio profiadau torcalonnus: Mae dyfyniad gan unigolyn a gymerodd ran yn ymchwil End Youth Homelessness Cymru yn dangos hyn yn dda:

*“I was actually 16 (when) they moved me into the night shelter and that’s too young to be in somewhere like the night shelter. I was in a pod. That is not a room that is floor space… I’ve been at the night shelter about six times now and I have been there twice between the time I was 16 and 18 and that’s the worst place I have been, to be honest. I have been to jail and the night shelter is worse than that. I would like to put in a complaint that people can’t stay in the night shelter when they are 16 years old”*

44. Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynnig yn y Papur Gwyn i wahardd lleoli pobl ifanc 16-17 oed mewn llety heb gymorth i oedolion. Roedd y sector plant hefyd yn cytuno â’r cynnig i wahardd lleoli pobl ifanc o dan 25 oed mewn llety heb gymorth, er ei fod yn sylweddoli y bydd angen cymorth ar awdurdodau lleol, o ran canllawiau ac adnoddau ariannol, i wireddu hyn. Nododd ymatebion ehangach i'r cynnig mewn perthynas â phobl ifanc o dan 25 oed yn gryf na fyddai modd ei roi ar waith, o ystyried y problemau o ran cyflenwad ar hyn o bryd a phrinder llety dros dro o safon dda. Codwyd pryderon hefyd nad yw oedran ar ei ben ei hun yn faen prawf priodol i bennu i ba raddau y mae unigolion yn agored i niwed, risg na'r gallu i fyw heb gymorth ac nad oedd y rhai o dan 25 oed yn grŵp tebyg ag ystod gydlynol o anghenion a phrofiadau.

45. O ystyried y pryderon mawr ynglŷn â gweithredu'r cynnig na ddylid defnyddio llety dros dro anaddas, gan gynnwys llety gwely a brecwast, i bobl 25 oed neu'n iau, nid yw'r Bil yn cynnwys y cynnig hwn. Fodd bynnag, nid yw llety gwely a brecwast, gwestai na mathau eraill o lety i oedolion yn bennaf yn lleoliad priodol i blant fyw ynddo. Mae Deddf 2014 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru bennu, mewn is-ddeddfwriaeth, yr amgylchiadau pan ddylai/na ddylai llety gael ei ystyried yn addas a materion y mae'n rhaid eu hystyried neu eu diystyru, wrth ystyried a yw eiddo yn addas. Bwriadwn ddiwygio Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 (“Gorchymyn Addasrwydd”) er mwyn sicrhau nad yw llety heb gymorth yn addas i bobl ifanc 16-17 oed, a byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol mewn perthynas ag amseriad y newid hwn, er mwyn

cydnabod y problemau o ran cyflenwad a fydd yn llesteirio'r broses o'i roi ar waith. Bydd hyn yn cael effeithiau cadarnhaol ar blant a phobl ifanc.

**Dyraniadau**

46. Roedd adborth gan bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ar y Papur Gwyn yn galw am i bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal gael ffafriaeth resymol yn y broses ddyrannu. Cawsom rywfaint o adborth hefyd y dylai pob person ifanc, yn fwy cyffredinol, sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd, gael ffafriaeth ychwanegol a ffafriaeth resymol mewn perthynas â dyrannu tai cymdeithasol.

47. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth lunio eu cynlluniau dyrannu, roi ffafriaeth resymol i'r rhai y mae dyletswyddau ar awdurdodau lleol o dan adran 108A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety ar gael iddynt ei feddiannu, p'un a ydynt yn ddigartref ai peidio. Mae'r ddyletswydd hon yn canolbwyntio'n benodol ar helpu person ifanc i bontio o ofal i fyw'n annibynnol. Bydd rhoi ffafriaeth resymol yn sicrhau bod opsiynau ac atebion tai ehangach yn cael eu darparu ar gyfer y grŵp hwn, ac mae'n ategu meysydd eraill yn y Bil y bwriedir iddynt sicrhau nad oes rhaid i bobl sy'n gadael gofal ddod yn rhan o'r system ddigartrefedd lle bynnag y bo modd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n gadael gofal; gan roi blaenoriaeth iddynt gael tai cymdeithasol heb fod angen iddynt fod yn ddigartref, a heb derfyn oedran uchaf.

48. Nid ydym wedi mynd ymhellach i greu grŵp ffafriaeth ychwanegol na ffafriaeth resymol i bobl ifanc. Bydd pobl ifanc, sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, eisoes yn cael ffafriaeth resymol gan y byddant yn destun dyletswydd digartrefedd, a gall y rhai nad oes dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt ond y mae angen llety arnynt ar frys am resymau eraill, megis byw mewn amodau tai aflân neu'r angen i symud ar sail lles, hefyd gael ffafriaeth resymol (yn amodol ar brawf ymddygiad annerbyniol). Yn ôl cyfrifiad 2021, mae tua 20% o'r bobl sy'n ddigartref yng Nghymru o dan 25 oed. Mae dros hanner y menywod sy'n ddigartref rhwng 15 a 29 oed ac er y tueddir i weld dosbarthiad ehangach o oedrannau ymhlith dynion sy'n ddigartref, mae bron 60% rhwng 15 a 39 oed. [22] Er mwyn bod yn effeithiol, mae'n rhaid bod cyfyngiadau ar y grwpiau â ffafriaeth resymol, er mwyn blaenoriaethu anghenion tai. Byddai rhoi ffafriaeth resymol i bobl ifanc yn gyffredinol yn tanseilio gallu awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i flaenoriaethu tai cymdeithasol ac mae'n bosibl y byddai goblygiadau anfwriadol i grwpiau eraill, a fyddai'n wynebu cyfnodau hir iawn mewn llety dros dro o ganlyniad i hynny. Bydd pobl ifanc, sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, yn parhau i gael ffafriaeth resymol gan y byddant yn destun dyletswydd digartrefedd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol i blant a phobl ifanc sy'n ddigartref.

**Fforddiadwyedd**

49. Nododd adborth ar y Papur Gwyn mewn perthynas â phlant yr heriau a wynebir gan y grŵp hwn o ran fforddiadwyedd. Mae pobl ifanc yn aml yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i lety yn y sector rhentu preifat am nad yw'r Lwfans

[22] Pobl sy'n ddigartref, Cymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Tai Lleol yn cwmpasu cost y mwyafrif o renti yng Nghymru. Fel arfer, dim ond hawl i'r 'gyfradd llety a rennir' fydd gan bobl ifanc, sy'n gymwys hyd yn oed os nad oes unrhyw lety a rennir yn yr ardal lle mae'r person ifanc yn byw. Mae rhai rhanddeiliaid wedi galw am ddeddfwriaeth sy'n amddiffyn pobl ifanc yn benodol rhag camfanteisio a gwahaniaethu gan landlordiaid preifat, asiantau gosod, yn ogystal â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol.

50. Fel y nodir uchod, mae'r sector rhentu preifat y tu allan i gwmpas y Bil. Fodd bynnag, credwn fod ein cynigion ehangach yn gwneud tai cymdeithasol yn fwy hygyrch i lawer o bobl ifanc, sy'n lliniaru'r heriau sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd i ryw raddau.

**Y nifer mwyaf posibl o opsiynau tai**

51. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion yn y Papur Gwyn i ddefnyddio ystod ehangach o opsiynau tai er mwyn cyflawni'r brif ddyletswydd digartrefedd. Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid yn galw am fesurau i ddiogelu pobl ifanc rhag cael eu rhoi o dan bwysau i dderbyn ateb nad yw'n briodol iddynt neu wynebu gwahaniaethu llwyr.

52. Nod y Bil yw sicrhau bod cynifer o opsiynau â phosibl ar gael i awdurdodau tai lleol er mwyn lleddfu digartrefedd yn eu hardal leol. Er mwyn lliniaru'r pryderon a godwyd gan randdeillaid, mae'r Bil yn sicrhau bod y llety yn debygol o fod ar gael i'w feddiannu am gyfnod o 12 mis er mwyn rhoi'r un sicrwydd deiliadaeth ag opsiynau tai eraill. I unigolion sy'n derbyn y cynigion hyn o lety amgen, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod tai lleol gysylltu â nhw tua chwe mis ar ôl i'r brif ddyletswydd digartrefedd ddod i ben gyda'r bwriad o nodi a ydynt yn wynebu risg o ddigartrefedd ac a oes angen cymorth ychwanegol arnynt. Credwn fod hyn yn ymateb i'r adborth adeiladol a roddwyd yn ystod yr ymgynghoriad a bydd yn cynnig mesur ychwanegol i ddiogelu'r rhai y mae eu dyletswydd wedi dod i ben drwy opsiwn llety nad yw'n cynnwys tai cymdeithasol na thai yn y sector rhentu preifat. Mae'n cydnabod bod yr opsiynau hyn yn debygol o gynnwys trefniadau llety a rennir sy'n haeddu trefnu i gael sgwrs arall â'r ceisydd. Bwriedir i'r sgyrsiau hyn nodi unrhyw broblemau ar gam cynnar, gan ei gwneud yn bosibl i gamau gael eu cymryd ar fyrder i'w datrys a lleihau digartrefedd mynych. Credwn y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol i blant a phobl ifanc, gan gynnig amrywiaeth ehangach o lety fforddiadwy iddynt a hefyd sicrhau bod cymorth ar waith o hyd wrth iddynt dderbyn yr opsiynau hynny.

**Pobl ifanc 16 a 17 oed**

53. Yn ystod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, cododd rhanddeiliaid gwestiynau ynglŷn â pha ran o'r gwasanaeth cyhoeddus sy'n gyfrifol am bobl ifanc 16-17 oed sy'n wynebu risg o ddigartrefedd. Roedd nifer bach o randdeiliaid yn galw am i siarter rhiant corfforaethol gael ei hymgorffori yng nghyfraith Cymru.

54. Bydd y Bil yn cyflwyno dyletswydd statudol newydd ar awdurdod lleol i sefydlu protocolau ar y cyd rhwng swyddogion yr awdurdod sy'n arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a'r rhai sy'n arfer ei swyddogaethau fel yr awdurdod tai lleol. Bydd protocolau ar y cyd yn ofynnol i ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref neu

sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd, anghenion llety a chymorth pobl sy'n gadael gofal, a phobl ifanc 16 a 17 oed sy'n gadael sefydliad cadw ieuenctid, neu safleoedd cymeradwy. Dylai'r protocolau ar y cyd hyn amlinellu trefniadau ymarferol, clir i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc a'u teuluoedd, gan atal pobl ifanc rhag cael eu trosglwyddo o un rhan o awdurdod i'r llall. Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir mai'r brif asiantaeth fydd gwasanaethau cymdeithasol i blant.

55. Bydd y cynnig hwn, sy'n ymateb uniongyrchol i brofiad plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn cael effaith gadarnhaol i'r grŵp hwn; mae protocolau ar y cyd yn galluogi partneriaid i ddeall eu rolau a chydweithio'n fwy effeithiol, sy'n arwain at fwy o dryloywder a chanlyniadau gwell i bobl ifanc.

**Pobl ifanc sy'n gadael gofal**

56. Mae pobl sy'n gadael gofal yn cael eu gorgynrychioli mewn ffigurau digartrefedd.  Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, amcangyfrifir bod dros un o bob pedwar person digartref ifanc wedi bod yn blentyn sy'n derbyn gofal, a nodir bod 26% o unigolion â phrofiad o fod mewn gofal wedi cysgu ar soffa ffrindiau neu berthnasau, a bod 14% wedi cysgu allan ar y stryd.[23]  Mae'r Bil yn cynnwys amrywiaeth o ddarpariaethau sydd â'r nod o sicrhau nad oes unrhyw berson ifanc yn gadael gofal i ddigartrefedd.

57. Mae ystod eang o ddeddfwriaeth a chanllawiau eisoes ar waith sy'n ceisio sicrhau bod llety addas yn cael ei gynllunio a'i drefnu i bobl ifanc sy'n gadael gofal.  Fodd bynnag, fel y nododd y Papur Gwyn ac fel y mae'r gweithgarwch ymgysylltu sy'n mynd rhagddo wedi'i gadarnhau, ceir bwlch gweithredu rhwng deddfwriaeth ac ymarfer, lle mae'n dal yn beth cyffredin i berson ifanc gael ei ryddhau o'r system ofal yn uniongyrchol i'r system ddigartrefedd. Ceir tystiolaeth hefyd fod trefniadau i bontio o ofal heb gymorth yn achosi digartrefedd yn uniongyrchol i lawer o bobl ifanc. Mae rhai pobl ifanc yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gymorth gan eu hawdurdod lleol ac mae rhai yn disgrifio lefelau o ansicrwydd a gwrthdaro rhwng adrannau tai lleol a gwasanaethau cymdeithasol o ran pa ran o'r sefydliad a ddylai fod yn gyfrifol.

58. Yn ychwanegol at y ddyletswydd statudol newydd ar awdurdod lleol i sefydlu protocolau ar y cyd, bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i feddiannu person ifanc sy'n gadael gofal os bydd llesiant y person ifanc yn golygu bod angen hynny. Rhoddir dyletswydd gychwynnol ar waith pan fydd person sy'n gadael gofal yn troi'n 18 oed a bydd yn ddyledus nes y bydd yn troi'n 21 oed neu, mewn perthynas â pherson ifanc categori 3, yn ystod cyfnod dilynol pan fydd dyletswydd yn bodoli eisoes mewn perthynas â'r person ifanc o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd dyletswydd arall yn ymateb i unrhyw risg ychwanegol o ddigartrefedd sy'n dod i'r amlwg ar ddiwedd cyfnod o addysg a phan fydd dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol yn dod i ben. Ein bwriad polisi yw y bydd y ddyletswydd hon yn

[23] PHW_Polisi_Report_2022_Briefing_WELSH-1.pdf

sicrhau bod gwaith paratoi cynnar yn cael ei wneud i gynllunio'r broses o bontio o ofal i fyw'n annibynnol ac i sicrhau nad oes rhaid i unrhyw berson sy'n gadael gofal gyflwyno ei hun fel person digartref er mwyn cael llety addas, ac felly, bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc.

**Sut y bydd eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y'u nodir gan erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol?**

| Erthyglau neu Brotocolau Dewisol CCUHP | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| Erthygl 27: Mae gan bob plentyn yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu ei anghenion corfforol a chymdeithasol a chefnogi ei ddatblygiad. Mae'n rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd na allant fforddio darparu hyn.<br><br>Erthygl 4: Mae'n rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau y gall pob plentyn fwynhau ei hawliau drwy greu systemau a phasio cyfreithiau sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau plant.<br><br>Erthygl 6: Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu mewn ffordd iach | X | | Nod y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) a yw sicrhau bod plant, p'un a ydynt yn ddigartref fel plentyn dibynnol neu fel plentyn ar ei ben ei hun, yn cael cymorth, gan gynnwys mynediad at lety addas.<br><br>Mae'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn rhoi ffocws penodol ar brofiad plant a phobl ifanc ac mae'n cynnwys darpariaeth benodol i ymdrin â materion a godwyd gan blant, pobl ifanc a'r rhanddeiliaid sy'n eu cynrychioli.<br><br>Mae'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn canolbwyntio ar atal fel bod plant a phobl ifanc yn gallu aros yn eu cartref. Fodd bynnag, bydd y Bil yn sicrhau y bydd plant, p'un a ydynt yn ddigartref fel plentyn dibynnol neu fel plentyn ar ei ben ei hun, yn cael cymorth, gan gynnwys mynediad at lety addas.<br><br>Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfleoedd i bobl ifanc fynegi eu barn am y Bil gan weithio gyda Cymorth Cymru ac EYHC i wneud hynny. Mae ymchwil benodol i lenwi'r bwlch mewn tystiolaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 12: Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arno, ac i'w farn gael ei hystyried a'i chymryd o ddifrif.<br><br>Erthygl 20: Os na all teulu agos plentyn ofalu amdano, mae'n rhaid i'r llywodraeth roi diogelwch a chymorth arbennig iddo. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y plentyn yn cael gofal amgen sy'n rhoi ystyriaeth ddyledus i ba mor ddymunol yw parhad ym magwraeth y plentyn a chefndir ethnig, crefyddol, diwylliannol ac ieithyddol y plentyn.<br><br>Erthygl 22: Os yw plentyn yn ceisio lloches neu os oes ganddo statws ffoadur, mae'n rhaid i lywodraethau roi diogelwch a chymorth priodol iddo er mwyn ei helpu i fwynhau'r holl hawliau o dan y Confensiwn. Mae'n rhaid i lywodraethau, | | | mewn perthynas â phlant o dan 16 oed yn mynd rhagddi.<br><br>Mae'r Comisiynydd Plant wedi cyhoeddi ymchwil yn ddiweddar sy'n nodi amrywiaeth o bryderon ynglŷn ag addasrwydd y llety a gynigir yng Nghymru, gan gynnwys mynediad i ysgolion a lle i blant gymryd rhan mewn chwarae ac addysg. Erys Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig o hyd i ymdrin â'r pryderon hyn. Mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r pwerau presennol i ddiwygio'r Gorchymyn Addasrwydd, a fydd yn ddigonol i ymdrin â'r materion a amlinellir uchod. Bwriadwn ddiwygio'r Gorchymyn Addasrwydd er mwyn gwella safonau llety a ddarperir o dan swyddogaethau digartrefedd.<br><br>Mae pobl sy'n gadael gofal yn cael eu gorgynrychioli mewn ffigurau digartrefedd. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o gynigion sydd â'r nod o sicrhau nad oes unrhyw berson ifanc yn gadael gofal i ddigartrefedd. Mae plant digwmni sy'n ceisio lloches yn blant sy'n derbyn gofal a phan fyddant yn peidio â bod yn blant sy'n derbyn gofal, pobl sy'n gadael gofal ydynt.<br><br>Mae'r Bil yn cynnwys nifer o gynigion sydd â'r nod o sicrhau nad oes unrhyw berson ifanc yn gadael gofal i ddigartrefedd. Mae plant digwmni sy'n ceisio lloches yn blant sy'n derbyn gofal a phan fyddant yn peidio â bod yn blant sy'n derbyn gofal, pobl sy'n gadael gofal ydynt |

| | | | |
|---|---|---|---|
| fel sy'n briodol yn eu barn nhw, gydweithredu mewn ymdrechion i helpu plant sy'n ffoaduriaid sydd wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni i ailuno â nhw.<br><br>Erthygl 34: Dylai'r Llywodraeth ddiogelu plant rhag camdriniaeth rywiol. | | | ac, felly, byddant yn cael eu cefnogi gan yr un cynigion.<br><br>Bwriadwn ddiwygio'r Gorchymyn Addasrwydd o dan bwerau yn Neddf 2014 er mwyn sicrhau nad yw pobl ifanc 16-17 oed yn cael eu gosod mewn llety dros dro heb gymorth.<br>Mae gosod pobl mewn llety i oedolion yn golygu eu bod yn wynebu mwy o risg. |

### Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

59. Fel y nodir uchod, rydym wedi comisiynu ymchwil benodol i lenwi'r bwlch mewn tystiolaeth mewn perthynas â phrofiad plant dibynnol o dan 16 oed sy'n ddigartref. Caiff yr ymchwil hon ei harwain gan Dr Nia Rees a bydd yn cynnwys methodoleg gyfranogol. Mae'r fethodoleg hon yn cynnwys ymgysylltu dilynol â chyfranogwyr er mwyn rhannu sut mae eu hadborth yn dylanwadu ar bolisi o hyd a datblygu allbynnau sy'n ystyriol o blant er mwyn helpu i gyfathrebu mewn ffyrdd hygyrch.

60. Bydd yr ymchwil hon yn ein helpu i ddeall anghenion plant sy'n ddigartref a sut y gellir ac y dylid rhannu gwybodaeth â nhw. Byddwn yn ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid ac yn ystyried sut rydym yn rhannu effaith y ddeddfwriaeth ar blant a phobl ifanc.

### Monitro ac Adolygu

61. Mae'r asesiad o'r effaith hwn wedi cael ei ddiwygio a'i ailystyried drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth inni symud drwy'r broses graffu a dechrau ei roi ar waith.

62. Er mwyn rhoi'r nodau polisi sy'n gysylltiedig â'r Bil ar waith, byddwn hefyd yn dibynnu ar is-ddeddfwriaeth ac yn cyhoeddi asesiadau ychwanegol o'r effaith ar hawliau plant er mwyn ystyried sut y gall rheoliadau neu ganllawiau yn y dyfodol effeithio ar blant.